

Ffrwd waith ICS Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)

Safonau Arbed Celloedd Mewndriniaethol (ICS) Cymru a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Safonau

1. Dylid cyflawni Arbed Celloedd Mewndriniaethol (ICS) ar gyfer triniaethau llawfeddygol (nad ydynt yn obstetrig) mewn oedolion lle rhagwelir colled gwaed >500mL^{1,2}, oni bai ei fod yn cael ei wrth-nodi.
2. Dylai fod arweinydd clinigol ICS ar gyfer pob Bwrdd Iechyd/ysbyty sy'n cyflawni gweithdrefnau llawfeddygol lle mae ICS yn cael ei ddefnyddio, neu lle nodir defnydd ICS¹.
3. Dylai celloedd coch a achubwyd gan yr ICS gynnwys label ID claf ynghlwm wrth y bag aildrwytho yn y man prosesu (neu cyn hynny)¹.
4. Dylai fod cofnod cynhwysfawr sy'n manylu'n benodol ar ddefnydd ICS yn nodiadau'r claf.
5. Dylid archwilio pob defnydd o ICS¹, a ddylai gynnwys cyfaint y gwaed a achubwyd ar gyfer aildrwytho.
6. Dylid hyfforddi gweithredwyr ICS acasesucymhwysedd¹.
7. Dylai defnydd ICS gael ei lywodraethu gan bolisi sefydliadol.
8. Dylid rhoi gwybod i SHOT (cynllun cadw gwyladwriaeth ar Beryglon Difrifol Trallwyso) am ddiwyddiadau andwyol yn ymwneud â ICS.

¹ [Canllaw AoA: Arbed celloedd ar gyfer cadwraeth gwaed amdriniaethol \(2018\)](#)

² [Canllaw NICE: Trallwysiad Gwaed \[NG24\] \(2015\)](#)

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)

1. Dylai defnydd ICS gael ei lywodraethu gan bolisi sefydliadol; Targed DPA: Cydymffurfiaeth o 100%; Wedi'i fesur gan: archwiliad blynyddol
2. Dylai fod arweinydd clinigol ICS ar gyfer pob Bwrdd Iechyd/ysbyty sy'n cyflawni gweithdrefnau llawfeddygol lle mae ICS yn cael ei ddefnyddio, neu lle nodir defnydd ICS; Targed DPA: Cydymffurfiaeth 100%; Wedi'i fesur gan: archwiliad blynyddol
3. Dylid archwilio pob defnydd ICS gan ddefnyddio targed DPA Ffurflen Casglu Data ICS Cymru Gyfan: Cydymffurfiaeth o 100%; Wedi'i fesur gan: Archwiliad 6 mis o gwblhau
4. Oedolion sy'n cael llawdriniaethau (nad ydynt yn obstetrig) y rhagwelir y byddant yn colli gwaed > Dylai 500mL gael cynnig ICS, oni bai y cynghorir yn erbyn hynny; Targed DPA: Cydymffurfiaeth o 95% Wedi'i fesur gan: Ffurflenni casglu data ICS

Bydd DPA 4 yn cael ei fesur yn ôl cwblhau casglu data ar gyfer gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol, yn erbyn nifer yr achosion o'r weithdrefn honno a gwblhawyd gan y Bwrdd Iechyd/ysbyty.